# Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol

**17 Mai 2023**

<u>Yn bresennol (yn bersonol)</u>
Dr R Heath Davies (Cadeirydd)
Cynghorydd S Alderman, Cynghorydd D Clements, Mrs S Hoss, Mr G Jones, Cynghorydd R Owens a'r Cynghorydd Mrs S Skyrme-Blackhall.

[Ymunodd y Cynghorydd M James â'r cyfarfod adeg ystyried Cynllun Archwilio Archwilio Cymru (gweler Cofnod 5)].

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am -11.30am; 11.40am - 12.45pm)

**1. Ymddiheuriadau**
Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. Datgan Buddiannau**
Nid oedd unrhyw un wedi datgan buddiant.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2023 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** ar gynnig y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, a eiliwyd gan Mr G Jones, i gadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2023.

**4. Materion yn Codi / Log Gweithredu**

a) <u>Cam Gweithredu 860 – Gweithdy ar Lifogydd/TAN 15</u>
Nodwyd y cynhelir y gweithdy unwaith y byddai'r TAN diwygiedig wedi'i gyhoeddi ddechrau mis Mehefin yn ôl y disgwyl.

b) <u>Cam Gweithredu 864 – Cylch Gorchwyl y Grŵp Iechyd a Diogelwch</u>
Dywedodd y Prif Weithredwr bod y Cylch Gorchwyl diwygiedig wedi'i gytuno yn y cyfarfod y diwrnod blaenorol ac y byddai'n cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor er gwybodaeth.

**NODWYD.**

**5. Cynllun Archwilio Archwilio Cymru**
Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i'r cyfarfod i Jason Blewitt o Archwilio Cymru, a amlinellodd y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan ddweud y byddai Cynllun Archwilio manwl yn cael ei ddarparu yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Tynnwyd sylw arbennig at yr amserlen ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol fyddai'n digwydd eleni yn yr Hydref,

a'r adroddiad terfynol wedi'i gwblhau erbyn 30 Tachwedd. Yn y blynyddoedd blaenorol roedd hyn wedi digwydd fis Gorffennaf, fodd bynnag eglurodd bod yr oedi wedi'i achosi yn gyntaf gan yr oedi cyn cwblhau archwiliadau'r Cynghorau yn 2021/22 oherwydd yr angen i roi cyfrif am asedau seilwaith, ond hefyd oherwydd cyflwyno safon archwilio newydd ISA315. Y gobaith oedd cwblhau'r archwiliad mis ynghynt ym mhob blwyddyn sydd i ddod. Gan droi at y ffioedd ar gyfer cynnal yr Archwiliad, dywedodd Mr Blewitt y byddai cynnydd o 4.8% yn gyffredinol, gyda'r archwiliad ariannol yn cynyddu 15%; amcangyfrifwyd bod hyn yn cyfateb i £29.5k am archwiliad ariannol yr Awdurdod a £18.5k am archwiliad o berfformiad yr Awdurdod.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Archwilwyr am eu hadroddiad clir ond ychwanegodd bod y newidiadau yn rhoi mwy o faich ar adnoddau cyfyngedig yr Awdurdod. Roedd yr Aelodau yn cytuno ac o'r farn y byddai'n ddiddorol gweld a fydd yr adroddiad ar lywodraethu, oedd yn digwydd ar y pryd, yn seiliedig ar yr un ffioedd uwch â'r archwiliad.

**NODWYD.**

**6. Adroddiad Archwilio Mewnol 2022/23**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i'r cyfarfod i Helen Cargill o Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod, TIAA. Cyflwynodd Ms Cargill adroddiadau ar yr adolygiad dilynol, y Cynlluniau Rheoli Cadwraeth, Diogelu, a Pherfformiad, ynghyd ag Adroddiad Blynyddol dangosol. Dywedodd nad oedd y Cynllun Adfer ar ôl Trychineb TGCh wedi'i gwblhau eto, felly ni fyddai'n rhan o'i hadroddiad y diwrnod hwnnw.

Gan droi yn gyntaf at yr adroddiad dilynol, dywedwyd bod nifer o'r camau oedd â tharged terfyn amser yn hwyr cyn cael eu gweithredu. Dywedodd y swyddogion y byddai log gweithredu o bob un o'r gofynion archwilio yn cael ei greu ar ôl derbyn yr holl ddogfennau ac y byddai hyn yn eitem sefydlog ar yr agenda fel y gellid monitro cynnydd. Holodd un Aelod ynghylch y dyddiad diwygiedig i ddiweddaru'r polisi ar Iechyd a Lles Gweithwyr oedd wedi'i nodi yn 31/03/25; roedd Ms Cargill yn cydnabod y gallai hyn fod yn gamgymeriad teipio a chytunodd i wirio hyn.

Roedd yr ail a'r trydydd adroddiad yn ymwneud â'r Cynlluniau Rheoli Cadwraeth a'r Adolygiad Diogelu, ac roedd y ddau wedi cael sicrwydd sylweddol. Nid oedd unrhyw argymhellion yn yr adroddiad cyntaf, a dim ond tri argymhelliad blaenoriaeth isel o ran Diogelu. Roedd yr Aelodau yn cydnabod bod hwn yn fater pwysig ond roeddent yn hapus y byddai'r argymhellion yn cael eu cofnodi yn y log gweithredu.

Dywedwyd bod sicrwydd rhesymol wedi'i roi i'r adolygiad o reoli perfformiad gyda nifer o argymhellion pwysig ac arferol. Mewn ymateb

dywedodd y Prif Weithredwr bod hwn yn faes gwaith lle'r oedd newidiadau yn cael eu gwneud ar hyn o bryd ac y byddai'r argymhellion yn gymorth i fwydo gwybodaeth i'r cynlluniau.

Yr adroddiad archwilio blynyddol dangosol oedd yr adroddiad olaf, a dywedwyd mai adroddiad dangosol oedd hwn gan fod yr adroddiad ar adfer ar ôl trychineb eto i'w gwblhau. Rhagwelwyd mai sicrwydd cyfyngedig fyddai i'r adroddiad hwn. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ond y prif reswm am y canlyniad oedd bod gweithredu Microsoft 365 ar draws yr Awdurdod yn cymryd blaenoriaeth dros y Cynllun Parhad Busnes. Fodd bynnag, roedd cynllun gweithredu yn cael ei baratoi i symud y gwaith yn ei flaen. Roedd yr Archwilwyr Mewnol yn hapus â'r ymagwedd a gymerwyd ac yn cydnabod y rheswm dros yr oedi.

**NODWYD.**

**7. Adroddiad Perfformiad am y Cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2023**

Roedd yr adroddiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau am 2022/23. Wrth i'r Awdurdod fynd drwy gyfnod o newid, roedd fframwaith mesur perfformiad trosiannol wedi'i roi ar waith ar gyfer 2022/23.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 31 Mawrth ac yn cynnwys ystadegau C1 i C4 ar gyfer rhai setiau data a gofnodir yn chwarterol ac yn amlygu'r meysydd hynny lle'r oedd targedau mewn coch neu ambr neu lle bu cynnydd cadarnhaol ers yr adroddiad blaenorol. Cyfeiriodd y swyddog at gamgymeriad teipograffyddol yn y canran o geisiadau cynllunio a benderfynwyd hyd yn hyn eleni o fewn y cyfnod amser, sydd, er yn is na'r targed, yn uwch yn hytrach nag yn is na'r ffigwr am yr un cyfnod y llynedd.

Tynnodd yr Aelodau sylw at nifer o bethau cadarnhaol yn yr adroddiad, ond mynegwyd pryder ynghylch y ffigurau am absenoldeb salwch oedd yn dangos cynnydd. Gofynnwyd yn benodol a oedd gan y staff sy'n gweithio gartref drefniadau priodol mewn lle i atal problemau cefn a gwddf. Rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd i'r Pwyllgor bod yr Awdurdod wedi ymateb yn gadarnhaol i geisiadau am weithio gartref, a'i bod yn ofynnol i staff gynnal asesiadau sgrîn arddangos i sicrhau trefniadau gweithio priodol. Roedd y ffigurau absenoldeb yn cynnwys amrywiaeth o faterion nad oeddent yn ymwneud â gwaith gan gynnwys colli aelodau o'r teulu a gwella ar ôl llawdriniaeth oedd wedi'i threfnu. Fodd bynnag byddai'r sefyllfa'n parhau i gael ei monitro.

Hefyd mynegwyd pryder ynghylch y llwyth cynyddol o achosion oedd gan y swyddogion cynllunio a'r straen oedd hynny yn ei achosi, a gofynnodd

yr Aelodau a oedd angen cyflogi rhagor o staff. Atebodd y Cyfarwyddwr bod y llwythi achosion yn cael eu monitro, a bod y rhan fwyaf yn is na'r cyfartaledd dros Gymru. Ychwanegodd, er gwaethaf yr anawsterau recriwtio, bod swyddogion cynllunio ychwanegol bellach wedi'u cyflogi a bod ymgynghorwyr wedi'u defnyddio i helpu yn ystod cyfnodau prysur. Y gobaith oedd y byddai swyddogion gorfodi yn cael eu recriwtio yn ystod y misoedd nesaf. Hefyd dywedodd bod nifer fechan o geisiadau amlweddog wedi cael effaith negyddol ar ganran y ceisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlen.

**NODWYD.**

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.30am a 11.40am]

**8. Iechyd, Diogelwch a Lles**

Roedd adroddiad Rheolwr y Prosiect Iechyd a Diogelwch yn amlinellu'r gwaith oedd yn cael ei wneud yn y maes hwn, ac yn cynnwys ffigurau ar salwch staff am y flwyddyn hyd yn hyn. Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth ynghylch y digwyddiad RIDDOR, a sicrhawyd hwy nad oedd yr anaf wedi digwydd ar y diwrnod dan sylw ond ei fod yn ganlyniad i anaf hanesyddol oedd wedi'i waethygu gan weithgarwch. Roedd newidiadau yn cael eu gwneud i'r gweithdrefnau yn sgîl hyn, ac awgrymwyd y gellid cyflwyno eitem ar waith yr Awdurdod gyda gwirfoddolwyr i'r Aelodau yn y dyfodol.

Hefyd gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad ar yr ymateb i HAVS (Syndrom Dirgryniad Llaw Braich) ac atebodd y swyddogion bod y gwaith ar HAVS yn parhau ac y byddai diweddariad llawn yn cael ei gyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf.

**NODWYD.**

[Cyflwynodd y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall ei hymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod yr adeg hon.]

**9. Diweddariad ar Reoli'r Clefyd Coed Ynn ar Ystad y Parc Cenedlaethol**

Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar y camau ymlaen ar reoli coed sydd â'r clefyd coed ynn ar draws ystâd yr Awdurdod ers yr adroddiad diwethaf fis Mai 2021. Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, dywedwyd bod angen parhaus i wneud arolwg o'r newydd o'r coed ond bod hyn wedi'i gynnwys yn y rhaglenni gwaith presennol a'r gobaith oedd y gallai'r gwaith ar y coed hynny oedd angen eu torri i lawr gael ei wneud gan y timau perthnasol. Roedd asesiadau yn cael eu gwneud i weld pa mor briodol yw gadael coed marw heb eu torri, ac er

bod llawer o blannu coed yn digwydd, byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i blannu coed yn lle'r coed marw yn y tymor hwy.

**NODWYD.**

**10. Cofrestr Risg**

Dywedwyd bod y Gofrestr Risg wedi ei hadolygu gan y Tîm Arweinyddiaeth, ac amlygwyd y prif newidiadau ers yr adroddiad blaenorol. Mewn ymateb i'r drafodaeth yn y cyfarfod blaenorol, roedd y ddogfen strategaeth risg wedi ei hatodi i'r adroddiad.

Cwestiynodd un Aelod a oedd y sgorau risg gweddilliol yn yr adroddiad yn parhau i fod yn briodol, ac atebodd y Prif Weithredwr bod Gweithdy i'r Aelodau i edrych ar barodrwydd i dderbyn risg wedi'i amserlennu i gael ei gynnal fis Gorffennaf pan ellir trafod ymhellach pa mor briodol yw gwahanol risgiau.

**NODWYD.**

**11. Perfformiad y Gyllideb am y Deuddeg Mis yn diweddu Mawrth 2023**

Dywedodd y Rheolwr Cyllid mai'r gobaith oedd cwblhau'r gwaith o baratoi'r cyfrifon erbyn diwedd mis Mehefin a'u cyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor, ond fel y nodir o dan Gofnod 5, byddai'n rhai misoedd cyn iddynt gael eu harchwilio. Yn y cyfamser, dywedodd bod y ffigyrau incwm wedi'u cwblhau yn ddiweddar a bod y rhain yn dangos cynnydd mewn gwerthiant, oedd yn uwch na'r lefelau a gofnodwyd cyn y pandemig, a bod y ffioedd mynediad yn dangos darlun tebyg. Roedd yr incwm cyffredinol o'r meysydd parcio yn uwch na'r gyllideb, ond yn is na ffigurau'r llynedd. Oherwydd y cynnydd sylweddol mewn incwm yn erbyn y gyllideb, roedd y rhagolwg wedi'i ddiwygio, a disgwylir gwarged o £51k yn awr, er gwaethaf codiad cyflog uwch na'r disgwyl.

**NODWYD.**

**12. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus**

Gofynnodd yr Aelodau am ddadansoddiad o'r tueddiadau salwch staff yn y cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion o bryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried**.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023 heb eu diwygio. |